

# YR HEUWR

CYLCHGRAWN MISOL EGLWYS HOREB PENRHYN-COCH
CYFROL 2 RHIF 16
HYDREF 2008

Un o symbolau mwyaf amlwg y cynhaeaf yw'r dorth o fara sydd yn cynrychioli ffrwythau'r ddaear a llafur dwylo dyn – yr hyn y diolchwn oll i Dduw amdanynt. Yr oedd gan yr Arglwydd Iesu lawer i'w ddweud am fara ac fe'n dysgodd i ddeisyf wrth weddïo ar ein Tad nefol, "Dyro i ni heddiw ein bara beunyddiol." Nid yw dyn yn hunan-ddigonol er ei holl wybodaeth a'i sgiliau technegol, gwyddonol a chyfrifiadurol. Ni all fyw heb Dduw ac wrth weddïo am ei fara bob dydd a diolch amdano, yr hyn a wna yw cydnabod daioni'r Creawdwr a'i ddibyniaeth arno. "Ar ei drugareddau yr ydym oll yn byw," ac y mae'r cynhaeaf yn dangos hynny'n glir. Yr adeg arbennig hon o'r flwyddyn felly, rhown ddioch am fod y bara yn arwydd o gynhaliaeth ddigonol Duw i'n cyrff.

Ond nid yw Gweddi'r Arglwydd yn gorffen gyda'r geiriau "dyro i ni heddiw ein bara beunyddiol." Â yn ei blaen, "**a** maddau i ni ein dyledion." A dyna'r Weddi felly yn cysylltu y ddwy agwedd sylfaenol ar fywyd, sef y corfforol a'r ysbrydol. Gwyddai'r Iesu fod cymaint o angen maddeuant ar ein heneidiau ag a oedd o angen bara ar ein cyrff. Yn anffodus, ni ellir dweud fod y rhan fwyaf o bobl heddiw yn ymwybodol o'u hanghenion ysbrydol a thybiant nad yw derbyn maddeuant yn ystyriaeth bwysig o gwbl. Ond a fyddai'r Iesu wedi ein dysgu i ofyn i Dduw am faddau i ni ein pechodau oni bai fod pechod yn rhywbeth real, a maddeuant yn gwbl angenrheidiol? Onid oes arnom angen maddeuant Duw yn feunyddiol, cymaint yn wir â bara?

Y gwir amdani yw i'r Arglwydd Iesu ei Hun ddweud, pan gafodd ei demtio gan Satan yn yr anialwch, na all dyn fyw ar fara yn unig. Efallai y gall fodoli ar fara yn unig, ond ni all fyw ar hynny. Rhaid wrth rywbeth amgenach, sef yr Efengyl Sanctaidd. Dim ond wrth wrando ar yr hyn y mae Duw yn ei ddweud y gall dyn fyw y bywyd llawn yng Nghrist Iesu, dim ond wedi iddo agor ei galon i'r Efengyl ac ymateb i'r Hollalluog mewn ffydd, addoliad, ufudd-dod a gostyngeiddrwydd y gall ddod o hyd i deyrnas Dduw.
Y mae yna newyn yng nghalonnau pob yr un ohonom na all neb ei ddiwallu, ond Iesu Grist ei hun. Ni ellir byth ddod o hyd i'r bywyd newydd tra bo gennym gyrff cyflawn ac eneidiau gwag; a'r hyn y mae ein heneidiau yn dyheu amdano yn fwy na dim yw cymdeithas â'n Creawdwr, yr Hwn sydd wrth wraidd ein bodolaeth.

Felly, wrth inni diolch eleni am y cynhaeaf , gadewch i ni gofio nad y bara sydd yn diwallu ein cyrff yw'r rhodd fwyaf a gawsom gan Dduw, ond y gras sydd yn adfer ein heneidiau. Ni allwn fyw ar fara yn unig. Yr ydym yn ddibynnol ar Air Duw, ar yr Hwn a ddywedodd "Myfi yw bara'r bywyd. Ni bydd eisiau bwyd byth ar y sawl sy'n dod ataf fi, ac ni bydd syched byth ar y sawl sy'n credu ynof fi" (Ioan 6:35).

Pob bendith
Judith

Berwynfa, Penrhyn-coch, Aberystwyth. SY23 3EW
Rhif Ffôn : 01970 820939 E-bost: berwynfa@btinternet.com

**CALENDR MIS HYDREF 2008**

| | | |
|---|---|---|
| **Cyhoeddwraig y Mis :**<br>Sandra Beechey | | |
| 5 Hydref 10.30<br>2.30 | Clwb Sul<br>Oedfa Gymun<br>Gweinidog | |
| 12 Hydref 10.30 | Oedfa Deuluol<br>Gweinidog<br><br>Bydd y Gweinidog yn cynnal oedfa fer yn yr ysbty am 3.00. Croeso i unrhyw un sydd am ddod. | |
| 19 Hydref 10.30<br>2.30 | Clwb Sul<br>Oedfa Bregeth<br><br>D.S. Cynhelir Cyrddau Mawr Bethel a Seion yn Seion am 10.00 ac am 6.00. Edrychwn ymlaen at groesawu y Parchedig Ieuan Davies. Croeso i aelodau Horeb. | Gofal y Te :<br>Glenys M a Janice |
| 26 Hydref 10.30 | Oedfa Bregeth<br>Gweinidog | |
| 2 Tachwedd 10.30<br>2.30 | Clwb Sul<br>Oedfa Gymun | |

**I'CH DYDDIADUR**

6 Hydref : Cinio Cymorth Cristnogol : Neuadd y Waun : 12.00-1.30
7 Hydref : Caniadaeth y Cysegr : Rihyrsal ar gyfer Cymanfa fer i ddathlu canmlwyddiant geni y diweddar W Llewelyn Edwards. Capel y Garn am 7.00.
8 Hydref : Cinio Cymunedol : Horeb yn gyfrifol am weini.
9 Hydref : Noson i Athrawon Ysgolion Sul, Arweinwyr Plant ac Ieuenctid: Canolfan San Paul 6.30-9.00.
14 Hydref : Recordio Caniadaeth y Cysegr Tonau W Llewelyn Edwards: Capel y Garn am 7.00.
15 Hydref : Cymdeithas Bethel am 2.00. Edrychwn ymlaen at groesawu Mrs Mair Evans i sôn am ei gwaith gyda'r Gwasanaeth Ambiwlans.
15 Hydref : Cymdeithas y Penrhyn : 7.30 : John Glant Griffiths : "Rhyfeddodau'r Goedwig"
16 Hydref : Os Mêts : Swper Diolchgarwch : Festri'r Garn : Gŵr Gwadd i annerch yr ieuenctid.
27 Hydref : Noson Gwis Anffurfiol yr Ysgolion Sul : Festri'r Garn am 6.00
28 Hydref : Cwrdd Gweddi yn Horeb : 7.30
6 Tachwedd :Cyfarfod Hanner Blynyddol Cymanfa Caerfyrddin a Cheredigion.
17 Rhagfyr : Cymdeithas Bethel : Trefnwyd taith o gwmpas y Llyfrgell Genedlaethol. Byddwn yn cyfarfod am 12.30 am ginio yn y ffreutur cyn cychwyn ar y daith am 2.00. Bydd angen cadarnhau y nifer rhyw wythnos o flaen llaw. Croeso i aelodau Horeb.

**LLOFFION**

- Gwellhad buan i Mr Victor Bolt, gŵr Laura, sydd yn yr ysbyty.
- Cydymdeimlwn â Mrs Morfudd Morris ar golli ei nai.
- Dymuniadau gorau i Cerys H ar y daith i Batagonia.
- Diolch yn fawr i Anne a'r Clwb Sul am eu cyfraniad i'r Oedfa Ddiolchgarwch.
- Diolch i Mrs Menna James, Bow Street am y rhodd o Lyfr Emynau a Beiblau er cof am ei diweddar ŵr, Ifor.

**APÊL AM WIRFODDOLWYR I GYNORTHWYO GYDA'R CLWB CINIO CYMUNEDOL**

Y mae angen un neu ddau o wirfoddolwyr yn ychwanegol i gynorthwyo gyda'r clwb cinio cymunedol. Y mae Horeb yn cymryd ei tro unwaith bob dau fis i osod y byrddau, arlwyo'r bwyd a chlirio'r llestri ac y mae'n ymrwymiad o ryw ddwy awr a hanner. Mae pob un sy'n gwirfoddoli yn cael pryd o fwyd sylweddol am ddim.